# BWRLWM AERON

Chwefror 2020

**CWRS PRESWYL GWERSYLL YR URDD LLANGRANNOG**

Treuliodd Bl. 3 ddau ddiwrnod llawn iawn yng Ngwersyll Llangrannog. Cafwyd amser arbennig yn gwneud pob math o weithgareddau, ac yn cymdeithasu â phlant o ysgolion eraill. Dychwelodd pawb i'r ysgol drannoeth ychydig yn flinedig, ond wedi cael amser bythgofiadwy.




**DISGO SANTES DWYNWEN**

Trefnwyd ddisgo Santes Dwynwen i'r ysgol gyfan gan aelodau'r Cyngor Ysgol a Siarter Iaith er budd gwaith yr Urdd yng Nghylch Aeron. Gwerthwyd cacennau, bisgedi a ffrwythau yn y disgo ac bu pawb yn danwsio i gerddoriaeth Cymraeg. Hefyd crewyd cardiau Santes Dwynwen gan aelodau'r cynghorau i werthu.

Diolch i bawb a gyfranodd tuag at y diwrnod.

**CROESO MAWR**

Dechreuodd Joseff, Bethany, Betty, Tymon, Daisy, Riley, Efa, Isla, Betsan, Adina, Ella a Sonny yn y dosbarth Meithrin a Scarlett ym mlwyddyn 5. Mae hi ar hyn o bryd yn mynychu Canolfan y Felin, ac yn dysgu Cymraeg yn gyflym iawn.

**ACTIFITI**

Bu Lleucu o Actifiti yn cynnal sesiynau hoci wythnosol gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6 fel rhan o 'Hoci Cymru'. Dysgwyd nifer o sgiliau pêl newydd.

Mae Actifiti hefyd yn cynnig nifer o glybiau amrywiol tu allan i'r ysgol. (Gweler posteri o gwmpas yr Ysgol.)

**DYDDIADAU PROFION CENEDLAETHOL**

Cofiwch y bydd 'Profion Cenedlaethol Rhifedd a Llythrennedd' yn cael eu cynnal rhwng 28.4.20 a 5.5.20.

**COGURDD**

Eleni aeth 12 o ddisgyblion ati i greu Cibab ffrwythau yn rownd yr ysgol o Cogurdd. Llongyfarchiadau i Ela Mablen ar ddod yn fuddugol ac i Maisie Tuson a Ella Phillips am ddod yn gydradd ail. Diolch i chi gyd am gystadlu a gwneud ymdrech arbennig.

Llwyddod Ela i ddod yn drydydd yn rownd derfynol y Sir.

**GALA CENEDLAETHOL YR URDD**

Aeth 3 o ddisgyblion yr Ysgol i nofio yng Ngala Nofio Cenedlaethol yr Urdd yng Nghaerdydd.

Llwyddodd Iolo i ddod yn 8fed yn ei ras derfynol.

Da iawn i Jenny ac i Ela Sara am euhymdrechion yn eu rhagrasys.

Llongyfarchiadau i chi gyd ar lefel Cymru.

**CYNHADLEDD LLES**

Llongyfarchaidau i Celt a Trystan am gyflwyno arbennig i benaethiaid y Sir ar ein defnydd o Yoga a 'Speakr' yn yr Ysgol i hyrwyddo llês ein disgyblion. Trefnwyd gan Adran Ysgolion Iach y Sir.

**PÊL-RWYD CYLCH AERON**

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol am ddod yn bencampwyr cylch Aeron, ac am wneud mor dda yn y rownd Ranbarthol.

**MAER Y DREF**

Diolch yn fawr i Mrs Katrina James am ddod i sgwrsio gyda disgyblion blwyddyn 1 a 2 am ei swydd fel Maer y dref. Cafodd y plant hefyd amser i ofyn nifer o gwestiynau pwysig iddi am ei rôl.

**CARTREF MIN Y MÔR**

Fel rhan o gysylltiadau yr ysgol gyda Chartref Min y Môr mae rhai o ddisgyblion yr ysgol wedi bod yn ymuno a chlwb celf bob pythefnos. Maent wedi bod yn peintio a chreu portreadau gyda'r preswylwyr. Maent yn edrych ymlaen at ein hymweliad nesaf yn barod.

**STAFF NEWYDD**

Croeso cynnes i Miss Sian Heke sydd wedi ymuno â ni fel cynorthwydd dosbarth yng nghyfnod allweddol 2.

Croeso hefyd i Owen Pocock myfyriwr o brifysgol Aberystwyth.

**CWIS DIM CLEM**

Llongyfarchiadau i Iolo, Cian, Trystan a Luc a enillodd cwis 'Dim Clem' De Ceredigion. Trefnwyd gan Cered, Menter Iaith Ceredigion. Pob lwc fechgyn yn y rownd nesaf.

## PÊL RWYD RHANBARTH URDD CEREDIGION

Llongyfarchiadau i dîm pêl-rwyd yr ysgol am eu perfformiad gwych yng nghystadleuaeth pêl-rwyd rhanbarth yr Urdd Ceredigion.

## CYFLWYNIAD HOLOCOST

Ymwelodd disgyblion bl.6 â'r Neuadd Goffa yn Aberaeron er mwyn gwrando ar gyflwyniad ar hanes yr Holocost.

## SIOE ARAD GOCH

Cafodd bl. 5 a 6 y cyfle i weld perfformaid newydd gan Arad Goch sef 'Tu Fewn a Tu Fas'. Ar ôl y perfformiad cynhaliwyd gweithdai i'r plant yn seiliedig ar beth welwyd.

## DIWRNOD MIWSIG CYMRU

I nodi'r diwrnod cafwyd wasanaeth arbennig i holl ddisgyblion yr ysgol. Cynhaliwyd llu o weithgareddau yn y dosbarthiadau a cafwyd neges arbennig oddi wrth Huw Stephens! Syrpreis arbennig!

## CLWB CHWARAEON YR URDD

Mae Chloe sef Prentis Chwaraeon yr Urdd wedi bod yn cynnal clwb chwaraeon ar ôl ysgol i'r dosbarth derbyn, bl.1 a bl.2 yn wythnosol. Bydd y clwb yn parhau ar ôl y gwyliau.

## ELIN O CYW

Fel rhan o thema'r dosbarth meithrin a derbyn, cafwyd ymweliad cyffrous iawn gan Elin, un o gyflwynwyr Cyw. Treuliodd Elin y bore yn canu a dawnsio gyda'r plant i nifer o ganeuon Cyw. Cafwyd hefyd sesiwn stori ac bu'r plant yn mwynhau gofyn cwestiynau iddi. Aeth Elin nôl gyda llond car o luniau lliwgar.



## WYTHNOS DEFNYDDIO'R RHYNGRWYD YN DDIOGEL

Cafodd y Dewiniaid Digidol wythnos brysur yn addysgu eu cyd-ddisgyblion. Cynhaliwyd gwasanaeth i holl ddisgyblion yr ysgol. Aeth y Dewiniaid Digidol o gwmpas y dosbarthiadau yn rhoi gwersi ar

Derbyn—defnyddio y bee-bots newydd yn y dosbarth

Blwyddyn 1—creu logo e-ddiogelwch newydd ar JIT

Blwyddyn 2—Codio e-ddiogelwch

Blwyddyn 3 a 4—Microbits
Cafodd blwyddyn 5 a 6 wersi ar seibr fwlio, pwysigrwydd o greu cyfrineiriau cryf ac hefyd e-byst sbam.

Gorffenwyd yr wythnos drwy ymweld â chartref preswyl Min y Môr i ddarparu sesiwn TGCh

## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR

27.2.20 Gwyl Offerynnol Cynradd Ceredigion

2.3.20 Gorymdaith Gwyl Dewi

5.3.20—Diwrnod y Llyfr

7.3.20—Cyngerdd Rhys Meirion

10.3.20 Eisteddfod Cynradd Cylch Aeron

19.3.20 Pontio Bl.6

20.3.20 Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion

28.3.20 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd Ceredigion

1.4.20 Pêl-droed 7 bob ochr

2.4.20 Eisteddfod Cyfnod Sylfaen

3.4.20 Eisteddfod Ysgol C.A.2

## PC AYRES

Diolch i PC Ayres am ddod i sgwrsio â blwyddyn 3 a 4 am ddiogelwch ar y we. Dysgwyd gwers bwysig iawn.

## SIOE TAITH YR IAITH

Mwynheuodd blynyddoedd 5 a 6 sioe 'Taith yr Iaith' gan gwmni 'Mewn Cymeriad' gan ddod a'r hanes datblygiad yr iaith yn fyw.

## RHIFAU PÊL BONWS

21.12.19— Hilary a Rory McConnell

11.1.20— Louise James

18.1.20– Dai Davies

25.1.20— Meryl Lloyd

1.2.20—Huw Jones

8.2.20—Meryl Lloyd

**<u>Cyfarchion Miss Jones a Mrs Lloyd-Hughes</u>**

Diolch am ddechrau arbennig i 2020! Dysgu da a chefnogaeth wych fel arfer gan rieni! Mwynhewch yr hoe! Croesi bysedd am dywydd sych!

## CODI ARIAN

Yr ydym wedi bod yn codi arian er budd nifer o elusennau y flwyddyn academaidd yma. Dyma'r symiau a godwyd.

Bore Cofii Macmillan- £1,104.00

Plant Mewn Angen— £146.30

Ffair Nadolig-£1,579.84(I'r ysgol)

Water Aid— £152.20

Santes Dwynwen— £303.50

Diolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniadau.

# BWRLWM AERON

February 2020

## RESIDENTIAL COURSE AT LLANGRANNOG URDD CAMP

Year 3 pupils spend two full days in Llangrannog Urdd camp. They all had a wonderful time taking part in a variety of different activities and socialising with pupils from other schools. Everyone returned to school a little tired but having had fabulous experiences.




## SANTES DWYNWEN DISCO

A 'Santes Dwynwen' disco was held for the whole school arranged by the School Council and 'Siarter Iaith' committee in aid of the Aeron Urdd Group. Cakes and fruit were sold during the disco and everyone danced to Welsh music. Santes Dwynwen cards were also created by the committee members to be sold.

Thank you to everyone who contributed on the day.

## ACTIFITI

Weekly hockey sessions have been held by Lleucu from Actifiti for 'Hockey Wales'. Excellent new ball skills have been learnt.

Actifit holds numerous clubs outside school hours and during school holidays.

## URDD NATIONAL GALA

5 pupils from the school went to compete in the Urdd National Swimming Gala in Cardiff.

Iolo managed a respectful 8th in the final

Well done to Jenny and Ela Sara for their effort in the heats.

Congratulations to you all

## MIN Y MÔR RESIDENTIAL HOME

As part of our community links, pupils have been attending fortnightly Art Therapy sessions at Min-y-môr. They have had many experiences, painting , creating portraits etc. with the residents. They are already looking forward to the next visit!

## AERON CLUSTER NETBALL

Congratulations to the school's netball team on winning the Aeron cluster netball competition.

## A WARM WELCOME TO

Joseff, Bethany, Tymon, Daisy, Riley, Efa, Isla, Betty, Betsan, Adina, Ella and Sonny who started in the nursery class. Scarlett was also welcomed to year 5. She is currently attending 'Canolfan y Felin' and is learning Welsh quickly!

## DATES FOR NATIONAL TESTS

Please note that the National Tests for Numeracy and Literacy will be held between the 28.04.20 and the 05.05.20 for Yrs 2-6 pupils.

## WELLBEING CONFERENCE

Congratulations to Celt and Trystan for highlighting the importance of Yoga and Speakr in the wellbeing of our school in a recent Headteachers' conference held by the County's Healthy Schools.

## COGURDD

This year 12 pupils took part in the school round of Cogurdd. They had to create fruit kebabs. Congratulations to Ela Mablen for winning and to Maisie and Ella Fflur for coming joint second. Thank you to everyone who competed. The standard was extremely high. Congratulations Ela for coming 3rd in the Ceredigion round.

## NEW STAFF

Welcome to Miss Sian Heke who has joined us as a classroom assistant in Key Stage 2.

We also welcome Owen Pocock, a student from Aberystwyth University.

## TOWN MAYOR

Thank you to Mrs Katrina James for coming to the school to talk about her role as town mayor to year 1 and 2 pupils. They also had time to ask her some important questions.

## QUIZ

Congratulations to Iolo, Cian, Trystan and Luc who were victorious in the south Ceredigion 'Dim Clem' quiz held by 'Cered'. Well done and good luck in the next round.

## URDD AREA NETBALL COMPETITION

Congratulations to the school netball team for their amazing performance at the Ceredigion Urdd Area Netball Competition.

## HOLOCAUST PRESENTATION

Year 6 pupils visited Aberaeron Memorial Hall to listen to a presentation on the Holocaust.

## WELSH MUSIC DAY

To mark this important day a special assembly was held for all pupils. A horde of activities were held in class and welsh music was heard through the school all day long.

A special message was received by Huw Stephens!

## ELIN FROM CYW

As part of the nursery and reception class theme, we had a special visit from Elin, one of the presenters of 'Cyw.' Elin spent the morning singing and dancing to many familiar Cyw songs. Everybody also enjoyed a story session.

Everyone thoroughly enjoyed the morning.



## RAISING MONEY

We have been raising money in aid of the school and many charities so far this academic year. We have managed to raise-

Macmillan Coffee morning -£1,104.00

Children in Need—£146.30

Christmas Fair—£1,579.84

Water Aid—£152.20

Santes Dwynwen—£303.50

Thank you everyone for your contributions.

## PC AYRES

Thank you to PC Ayres for coming to the school to give a talk on internet safety. An important lesson was learnt.

## 'MEWN CYMERIAD' SHOW

Yr 5 and 6 pupils enjoyed a performance of 'Taith yr Iaith' by 'Mewn Cymeriad.' They brought the history of the Welsh language alive, and celebrated the importance of those who were learning the language.

## SAFER INTERNET USE WEEK

The school digital wizards had a busy week educating their peers. Morning assembly was held for the whole school. The digital wizards visited every class to assist pupils —

Reception—How to use their new Bee-Bots,

Year 1—creating a new e-safety logo on JIT

Year 2—e-safety coding

Year 3 and 4—Microbits

Year 5 and 6 received a lesson on cyber bullying, the importance of creating strong passwords and spam e-mails.

They finished the week by visiting Min y Môr to assist residents and staff in using i-pads.

## DATES FOR THE DIARY

27.2.20—Gwyl Offerynnol Cynradd Ceredigion Instrumental Eisteddfod

2.3.20— St David's Day Procession

5.3.20—World Book Day

7.3.20—Rhys Meirion Concert

10.3.20— Aeron cluster Urdd Eisteddfod

19.3.20—Year 6 Bridging

20.3.20— Urdd Dance Eisteddfod

28.3.20—Urdd Ceredigion Eisteddfod

1.4.20—7 a Side Football Competition

2.4.20—Foundation Phase Eisteddfod

3.4.20—Key Stage 2 Eisteddfod

## URDD SPORTS CLUB

Chloe, Urdd Sport Apprentice has been holding a weekly after school sports club for the reception class, year 1 and 2. The club will continue after the half term holiday.

**Miss Jones & Mrs Lloyd-Hughes' greetings**

Thanks for beginning 2020 with lots of great learning and support! We hope you all have a good rest and enjoy your break! Fingers crossed for dry weather!

## BONUS BALL

21.12.19– Hilary a Rory McConnell

11.1.20– Louise James

18.1.20– Dai Davies

25.1.20– Meryl Lloyd

1.2.20– Huw Jones

8.2.20— Meryl Lloyd